**Gweledigaeth Cwricwlwm Clwstwr Teulu Llangynwyd:**

Datblygwn ymarferwyr **arloesol**, **arweiniol** sy'n cydweithio i ddatblygu'r addysgeg gorau posib ar gyfer **dysgwyr Teulu Llan**.
Cyd-ddatblygwn cwricwla **uchelgeisiol a chreadigol** sy'n berthnasol i'n dysgwyr gydag egwyddorion addysgeg cytûn.
Hyrwyddwn profiadau dysgu sy'n datblygu **dysgwyr iachus a mentrus** gan feithrin sgiliau angenrheidiol i ganiatáu unigolion **hyderus** ar hyd y llwybr dysgu.
Mireiniwn continwwm dysgu cynhwysol sy'n defnyddio dulliau asesu effeithiol i nodi a chefnogi cynnydd **pob unigolyn**.
Monitrwn prosesau cymedroli effeithlon sy'n hyrwyddo dilyniant **llwyddiannus i bawb** wrth symud drwy'r cyfnodau dysgu.
Magwn **ddinasyddion egwyddorol** sy'n ymfalchïo yn eu **cynefin, Cymru a'r iaith Gymraeg**.

Fel clwstwr cyd-gynlluniwn cwricwlwm eang a chytbwys sydd â datblygu rhinweddau'r pedwar diben wrth wraidd iddo. Mae'r cwricwlwm yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau ac yn cynnig cyfle i bob dysgwyr wneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu. Mae'r cwricwlwm wedi ei lunio i roi ystyriaeth llawn i bob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad ac yn cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Ceir manylion pellach am y chwe maes dysgu a phrofiad yn y canllaw i rieni. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth traddodiadol er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i dynnu ar ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau ar draws nifer o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Wrth wireddu'r cwricwlwm byddwn hefyd yn meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ynghyd ag addysg hawliau dynol ac amrywiaeth. Sicrhawn bod ein cynlluniau gwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i elfennau mandadol y cwricwlwm, sef crefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg cydberthynas a rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg.

Cydnabyddwn fel clwstwr mai diben asesu yw cefnogi pob dysgwr unigol i symud ymlaen yn briodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Bydd pob ysgol yn y clwstwr yn dilyn eu canllawiau asesu sydd â ffocws ar gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser ynghyd â deall cynnydd grwpiau o ddysgwyr sy'n caniatáu myfyrio parhaus i lywio darpariaeth y dyfodol.

Byddwn yn myfyrio a mireinio'r cwricwlwm yn gyson gyda gweithgareddau llais y dysgwr yn chwarae rhan gref yn y prosesau hunan arfarnu ar lefel adran ac ysgol gyfan. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn cynnig noson rhithwir i rieni a rhanddeiliaid ymuno â ni er mwyn clywed am y datblygiadau diweddaraf a cynnig cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau a chynnig sylwadau.